CIWB

**Tasg 3**

# Beth ddylwn i wneud?

Darllenwch am y bobl yma.

Dw i'n mwynhau chwaraeon yn fawr a dw i'n cefnogi tîm pêl-droed Caerdydd.
Dw i wrth fy modd yn cadw'n heini.
Dw i wrth fy modd yn gwylio sianeli chwaraeon ar y teledu.
Dw i'n gweithio'n dda mewn tîm.
Fy hobïau i ydy mynd allan gyda ffrindiau, chwaraeon (wrth gwrs!), ysgrifennu a siopa am ddillad.
Beth ddylwn i wneud yn y dyfodol?



Idris



Samira

Yr yr ysgol dw i'n hoffi technoleg, chwaraeon, Ffrangeg a gwyddoniaeth.
Dw i'n mwynhau coginio a gwneud bwyd diddorol.
Dw i'n berson creadigol iawn – dw i'n hoffi trio pethau newydd.
Dw i'n dda gydag arian.
Dw i'n mwynhau gweithio mewn tîm.
Fy hobïau i ydy mynd allan gyda ffrindiau, dawnsio, cerddoriaeth a darllen.
Beth ddylwn i wneud yn y dyfodol?

Dw i'n gweithio'n dda ar fy mhen fy hun.
Dw i'n hoffi gwneud pethau a dw i'n dda am drwsio pethau.
Dw i'n dda am ddatrys problemau.
Dw i'n mwynhau bod tu allan.
Dw i'n mwynhau cyfarfod â phobl.
Dw i ddim eisiau swydd tu ôl i ddesg achos mae'n ddiflas iawn.



Jo

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| cefnogi | to support | ar fy mhen fy hun | by myself, on my own |
| cadw'n heini | to keep fit | trwsio | to repair |
| sianel, sianeli | channel, channels | datrys | to solve |
| gwyddoniaeth | science | cyfarfod â | to meet |
| creadigol | creative | tu ôl i | behind |
| pethau | things | | |

1. Beth ddylai'r bobl yma wneud yn y dyfodol?

Rhowch gyngor iddyn nhw, e.e.

Dylet ti fod yn ...
You should be a ...

Dylet ti weithio i ...
You should work for ...

Dylet ti feddwl am ...
You should think about ...

Dylet ti fynd i'r coleg i astudio ... ac yna dylet ti ...
You should go to college to study ... and then you should ...

Dylet ti wneud cwrs ... ac yna dylet ti ...
You should do a ... course and then you should ...

| | Cyngor |
|---|---|
| **Idris** | |
| **Samira** | |
| **Jo** | |

2. Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau pobl eraill.

Ewch i'r dudalen nesaf.

3. Beth amdanoch chi?

Ysgrifennwch amdanoch chi'ch hun.

Beth ddylwn i wneud yn y dyfodol?

Gwaith pâr:
Rhowch y darn i'ch partner chi.
Rhowch gyngor i'ch partner chi.

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| amdanoch chi | about you | amdanoch chi'ch hun | about yourself |